CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# YMGYNGHORIAD

# Cynnig i sefydlu ffederasiwn ysgol rhwng Ysgol Llanddoged ac Ysgol Ysbyty Ifan

Mae'r ddogfen ymgynghori hon a'r atodiadau hefyd ar gael ar y dudalen Ymgynghori ar wefan y Cyngor.

Mae’r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg / This document is available in English.



**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i ddysgu a chyflawni**

**Conwy County, the right environment to learn and achieve**

**Tabl Cynnwys**


| | Adran | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Y Cynnig | 3 |
| 2. | Cefndir a gyrwyr ar gyfer newid | 4 |
| 3. | Trosolwg o Ysgol Llanddoged ac Ysbyty Ifan | 4 – 6 |
| 4. | Y buddion a’r heriau sydd ynghlwm â Ffederasiwn | 6 |
| 5. | Cyllid | 7 |
| 6. | Arweinyddiaeth a Strwythur | 7 |
| 7. | Y broses ffedereiddio | 8 |
| 8. | Cyfansoddiad y Corff Llywodraethu | 8 |
| 9. | Effaith ar Gludiant | 8 |
| 10. | Derbyniadau | 8 |
| 11. | Y Broses Ymgynghori | 9 |
| 12. | Effaith ar Gydraddoldeb | 10 |
| | Ffurflen Ymateb | 11 |

## 1. Y Cynnig

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r cynnig a wnaed gan yr Awdurdod Lleol i ffurfio cytundeb ffederasiwn gydag Ysgol Llanddoged ac Ysgol Ysbyty Ifan yn unol â Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014.

Nod y Ffederasiwn yw i'r ddwy ysgol weithio mewn partneriaeth. Mae'r Pennaeth wedi darparu'r pwyntiau isod i ddarparu'r camau cadarnhaol hyd yma:

- Agor drysau at arbenigedd, gwella sgiliau staff y ddwy ysgol / rhannu arbenigedd / rhannu arfer da, sydd yn ei dro yn codi safonau ac yn ehangu profiadau
- Rhannu arfer gorau, deunyddiau paratoi ac adnoddau
- Darparu'r cyfleoedd cymdeithasol gorau i'r disgyblion
- Ehangu cyfleoedd datblygu proffesiynol staff y ddwy ysgol
- Caniatáu i'r ysgolion ffederal aros yn eu cymunedau eu hunain a chadw eu hunaniaeth, gan ychwanegu at fudd cyffredinol, lles a chyflawniad pob disgybl
- Parhau i gryfhau'r Gymraeg, diwylliant ac ethos Cymreig a sicrhau gwerthoedd crefyddol unigryw'r ysgolion eglwys hyn.
- Sicrhau fod gwerthoedd yr eglwys yn cael eu cryfhau rhwng y ddwy ysgol

Bydd hyn yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol sylweddol a safonau gwell i bawb.

Mae'r term 'Ffederasiwn' yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae ysgolion yn rhannu trefniadau llywodraethu. Dyma'r prif elfennau:

- Os cytunir i sefydlu Ffederasiwn Ysgol, bydd un corff llywodraethu'n goruchwylio ysgolion y ffederasiwn yn strategol, bydd y cyrff llywodraethu presennol yn cael eu diddymu a'u disodli gan un corff llywodraethu newydd a fydd yn goruchwylio'r ddwy ysgol yn strategol.

- Bydd y ddwy ysgol yn cadw eu cymeriad, enw, categori, cyllideb, staff a'u gwisg ysgol eu hunain.

- Bydd yr ysgolion yn aros yn eu cymuned eu hunain.

- Bydd pob ysgol yn cael ei harolwg ei hun gan Estyn, er mae'r rhain yn gynyddol yn cael eu cydlynu i ddigwydd ar yr un pryd / ar amser tebyg ar gyfer pob ysgol o fewn y ffederasiwn i leihau straen a tharfu.

Bydd yn rhaid cytuno ar enw ar gyfer y Ffederasiwn.

Hoffem glywed eich barn ar y cynnig hwn. Gallwch ddod o hyd i gyfarwyddiadau ar sut i rannu eich barn â ni ar ddiwedd y ddogfen hon.

Mae Conwy'n cydnabod y pwysigrwydd o gynnwys disgyblion yr ysgolion yn y broses o ddatblygu a gwella eu profiad addysg a chyda hyn mewn golwg byddwn yn sicrhau eu bod yn cymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori a gweithredu. Bydd Swyddogion Addysg yn ymgynghori â disgyblion ac yn cynhyrchu fersiwn addas i blant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori ac yn sicrhau fod athrawon yn cynnal sesiynau i drafod y cynnig â disgyblion a'u hannog i ymgysylltu a rhannu eu hadborth i'w gyflwyno i'r Cabinet.

## 2. **Cefndir a gyrwyr ar gyfer newid**

Gall ffederasiwn helpu ysgolion cynradd gwledig bychain i barhau i fod yn gynaliadwy yn eu cymunedau. Mae corff llywodraethu a rannir yn darparu dull effeithiol ac atebol i ysgolion gyfuno adnoddau a staff, cyflawni arbedion maint ac effeithlonrwydd i'w galluogi i barhau i fod yn hyfyw. Gall ysgolion llai mewn ardaloedd mwy gwledig ac anghysbell fanteisio ar ffedereiddio oherwydd y cyfleoedd i rannu rheolwyr, cyfrifoldebau corff llywodraethu ac arbenigedd cwricwlwm.

Mae'r tabl isod yn dangos y cefndir a'r gyrwyr ar gyfer cydweithio yn y ddwy ysgol:

| **Ysbyty Ifan** | **Llanddoged** |
|---|---|
| • Dim Pennaeth parhaol<br><br>• Mae angen diogelu dyheadau ysgol fechan drwy ymestyn y gefnogaeth staff a rhannu'r sgiliau i sicrhau'r canlyniadau a'r profiadau gorau posibl i'n disgyblion.<br><br>• Ysgol eglwys<br><br>• Cyfrwng Cymraeg | • Pennaeth diweddar ond sefydledig gyda chefndir mewn gwahanol ysgolion sy'n amrywio o ran maint ac iaith.<br><br>• Mae awydd i ddiogelu dyheadau ysgol fechan drwy ymestyn y gefnogaeth a rhannu sgiliau staff i sicrhau'r canlyniadau a'r profiadau gorau posibl i'n disgyblion.<br><br>• Ysgol eglwys<br><br>• Cyfrwng Cymraeg |

## 3. **Trosolwg o Ysgol Llanddoged ac Ysbyty Ifan**







Mae 12.7 milltir rhwng Ysgol Llanddoged ac Ysgol Ysbyty Ifan.

Mae Ysgol Llanddoged ac Ysgol Ysbyty Ifan yn Ysgolion Cynradd Gwirfoddol a Reolir gan yr Eglwys yng Nghymru sy'n darparu Addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 o'r ysgol feithrin i flwyddyn 6.

Cymraeg yw prif iaith y ddwy ysgol. Caiff y Gymraeg ei defnyddio fel yr iaith i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r ysgolion yn cyfathrebu gyda'r rhieni yn y ddwy iaith.

**Datganiad o Ethos Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru**

Gan gydnabod ei sylfaen hanesyddol, bydd y ddwy ysgol yn cadw a datblygu eu cymeriad crefyddol yn unol ag egwyddorion yr Eglwys yng Nghymru ac mewn partneriaeth ag eglwys y plwyf a lefelau esgobaethol.

Nod yr ysgolion yw gwasanaethu'r gymuned trwy ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf yng nghyd-destun cred ac arfer Cristnogol. Mae'n annog dealltwriaeth o ystyr ac arwyddocâd ffydd ac mae'n hyrwyddo gwerthoedd Cristnogol drwy'r profiad mae'n ei gynnig i bob un o'i disgyblion.

Rhestrir yr ystadegau ar gyfer y ddwy ysgol yn y tabl isod:

| | Ysgol Llanddoged | Ysgol Ysbyty Ifan |
|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | Llanddoged, Llanrwst, LL26 0BJ | Ysbyty Ifan, Betws-y-Coed LL24 0NY |
| **Categori Ysgol** | Ysgol Gynradd a Reolir yn Wirfoddol | Ysgol Gynradd a Reolir yn Wirfoddol |
| **Capasiti (llawn amser) (CYBLD Ionawr 2024)** | 97 | 40 |
| **Arolwg ESTYN** | Hydref 2017 Templed Adroddiad Arolwg (llyw.cymru) | Mehefin 2017 Templed Adroddiad Arolwg (llyw.cymru) |
| **Perfformiad Presennol** | Boddhaol | Da |
| **Rhagolygon ar gyfer Gwella** | Angen gwella<br><br>2019 - Daeth yr ysgol allan o adolygiad ESTYN Canlyniad adolygiad Estyn yn Ysgol Llanddoged (llyw.cymru) | Da |
| **Categori Cyflwr Adeilad** | B | C |

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm y dysgwyr llawn amser dros y pum mlynedd diwethaf:

| Ysgol | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Ysbyty Ifan** | 15 | 12 | 15 | 15 | 17 |
| **Ysgol Llanddoged** | 35 | 32 | 35 | 35 | 36 |

Mae’r tabl isod yn dangos nifer y disgyblion a ragwelir dros y pum mlynedd nesaf yn seiliedig ar ddata CYBLD Ionawr 2024:

| Ysgol | CYFANSWM CYFWERTH AG AMSER LLAWN | CYFANSWM Y DISGYBLION (gan eithrio’r ysgol feithrin) | CYFANSWM | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Ysbyty Ifan** | **17.5** | **17** | **18** | **14** | **16** | **15** | **16** | **14** |
| **Ysgol Llanddoged** | **38** | **36** | **40** | **37** | **33** | **33** | **36** | **35** |

**Amcanestyniadau yn unig yw’r niferoedd disgyblion rhwng 2025 a 2029 a gallai’r rhain newid.**

**Ysgol Llanddoged – Staff Presennol (CYBLD 2024)**

| Staff Addysgu Niferoedd CALI | | | Staff Cefnogi CALI | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pennaeth** | **Dirprwy Bennaeth** | **Athro Cymwys** | **Cymhorthydd Addysgu** | **Staff Gweinyddol** | **Rheolwr Busnes yr Ysgol neu gyfateb** |
| 0.49 | 0.49 | 1.62 | 0.80 | 0.37 | 0.22 |

**Ysgol Ysbyty Ifan – Staff Presennol (CYBLD 2024)**

| Staff Addysgu Niferoedd CALI | | | Staff Cefnogi CALI | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pennaeth** | **Dirprwy Bennaeth** | **Athro Cymwys** | **Cymhorthydd Addysgu** | **Staff Gweinyddol** | **Rheolwr Busnes yr Ysgol neu gyfateb** |
| 0.49 | 0.49 | 1 | 0.49 | 0.00 | 0.22 |

## 4. Y buddion a’r heriau allweddol sydd ynghlwm â Ffederasiwn

Mae nifer o fuddion a heriau allweddol ynghlwm â ffederasiwn. Mae’r Gwasanaethau Addysg wedi ystyried y buddion a’r heriau disgwyliedig sydd ynghlwm â’r cynnig i ffedereiddio Ysgol Llanddoged ac Ysgol Ysbyty Ifan, ac mae’r rhain wedi’u nodi yn y tabl isod:

| **Buddion Allweddol** | **Heriau Allweddol** |
|---|---|
| Cysondeb yn yr addysgu a'r dysgu, yn enwedig ar draws y cyfnodau | Sicrhau ymrwymiad llawn gan y ddwy ysgol |
| Symleiddio polisïau a strwythurau | Rhagor o lwyth gwaith i lywodraethwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf o sefydlu'r Ffederasiwn |
| Rhannu arfer da, deunyddiau paratoi ac adnoddau | Meithrin ymddiriedaeth rhwng cymunedau a Llywodraethwyr y ddwy ysgol |
| Mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff | Sicrhau trefniadau cyfathrebu clir gydag athrawon a staff yn y ddwy ysgol |
| Trefnu gweithgareddau ar y cyd i ddisgyblion | Sicrhau strwythurau staffio effeithiol er mwyn galluogi trefniadau pontio rhwydd |
| Helpu ysgolion cynradd gwledig i fod yn gynaliadwy yn eu cymunedau | |
| Rhannu rheolwyr, cyfrifoldebau corff llywodraethu ac arbenigedd cwricwlwm | |
| Gwella a diogelu'r Gymraeg a'i diwylliant a'i threftadaeth | |
| Cefnogi a diogelu gwerthoedd yr eglwys | |

5. **<u>Cyllid</u>**
Ni fydd ffederasiwn yn cael effaith ar y ffordd y cyfrifir cyllideb ysgol unigol - bydd pob ysgol yn y ffederasiwn yn parhau i dderbyn ei chyllideb ei hun yn seiliedig ar nifer y disgyblion sydd wedi cofrestru yn yr ysgol yn ogystal ag unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

6. **<u>Arweinyddiaeth a Strwythur</u>**
Mae Ysgol Llanddoged ac Ysgol Ysbyty Ifan yn rhannu Pennaeth rhwng y ddau safle ar hyn o bryd.

Pe bai'r cynnig i ffedereiddio'n dod i rym, byddai gan yr ysgol un Pennaeth gweithredol.

Roedd gan yr ysgolion bennaeth cynorthwyol yn ystod y cyfnod cychwynnol o gydweithio rhwng mis Medi 22 a Phasg 2024 i sicrhau bod arweinydd ar y safle yn ystod absenoldeb y Pennaeth.

## 7. Y broses ffedereiddio

Mae'r broses y byddai awdurdod lleol yn ei defnyddio i ffedereiddio ysgolion yn debyg iawn i'r un y byddai cyrff llywodraethu'n ei dilyn. Os yw awdurdod lleol yn ystyried ffedereiddio ysgol a gynorthwyir yn wirfoddol, a reolir yn wirfoddol neu ysgol sylfaen, dylai gysylltu â'r Comisiwn Elusennau yn y lle cyntaf i drafod y cynigion. Dylid hefyd ceisio caniatâd yr awdurdod esgobaethol, ymddiriedolwyr neu'r unigolion sy'n gyfrifol am benodi'r llywodraethwyr sylfaen cyn parhau â'r camau isod. Fel rhan o Gam 1 - Archwilio a Pharatoi, anfonwyd llythyr at Esgobaeth Llanelwy i geisio eu caniatâd ar gynnig i ffurfio ffederasiwn rhwng y ddwy ysgol. Ymatebodd yr Esgobaeth gan gadarnhau eu bod yn cefnogi archwilio cynnig i sefydlu ffederasiwn rhwng y ddwy ysgol ac yn cydnabod y cyfleoedd a'r buddion y gallai'r ffederasiwn eu cynnig i ddisgyblion a staff yn y ddwy ysgol.

Dylai awdurdodau lleol:

- ystyried ffederasiwn fel opsiwn o fewn eu cynlluniau strategol ar gyfer darpariaeth ysgol effeithiol mewn neu ar draws cymunedau
- sicrhau fod cynlluniau trefnu ysgolion yn ddigon manwl a thryloyw i lywio penderfyniadau mewn perthynas â ffederasiwn o fewn ac ar draws cyrff llywodraethu ysgolion
- ystyried effaith eu rhaglen ffedereiddio ar ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, ysgolion a reolir yn wirfoddol neu ysgolion sylfaen lle nad yw'n hawdd cyflawni ffederasiwn o bosibl
- nodi ysgolion bychain gyda llai na 91 o ddysgwyr gan fod y broses ar gyfer ceisio barn budd-ddeiliaid i ffedereiddio'r ysgolion bychain hyn yn llai

Mae Mesur Addysg (Cymru) 2011 yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol wneud cynigion ar gyfer ffedereiddio.

O ran ffederasiynau a gaiff eu harwain gan awdurdodau lleol, bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu p'un a ddylid ffedereiddio neu beidio yn dilyn ystyriaeth ofalus o'r defnydd o ffederasiwn fel offeryn strategol i annog canlyniadau gwell a darparu arbedion effeithlonrwydd yn eu hardaloedd.

## 8. Cyfansoddiad y Corff Llywodraethu

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i bob corff llywodraethu sydd wedi'u ffedereiddio gynnwys o leiaf 15 a hyd at 27 o Lywodraethwyr. Byddem yn dechrau drwy ystyried cynrychiolaeth deg gan y ddwy ysgol ar y corff llywodraethu newydd.

## 9. Effaith ar Gludiant

Mae'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol presennol yn nodi y bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddisgyblion Ysgolion Cynradd sy'n byw dros 2 filltir o'u hysgol briodol agosaf.

Ar hyn o bryd mae 14 o ddisgyblion yn derbyn Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol i naill ai Ysgol Llanddoged neu Ysgol Ysbyty Ifan sy'n byw dros 2 filltir o'r ysgol.

Pe bai'r Cynnig i ffedereiddio'r ysgolion yn cael ei gymeradwyo, ni fydd unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth cludiant presennol. Bydd disgyblion yn parhau i dderbyn eu

haddysg o'r un safle ag y maent ar hyn o bryd ac felly ni fyddant yn gymwys i gael Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol am ddim.

## 10. Derbyniadau

Bydd Gwasanaeth Addysg Conwy'n parhau i weithredu fel awdurdod derbyn yn ystod ac ar ôl y broses o ffedereiddio'r ddwy ysgol.

Bydd grwpiau addysgu yn aros o fewn y terfyn statudol o 30 disgybl yn nosbarthiadau'r cyfnod sylfaen a 30 neu lai ar gyfer disgyblion dosbarthiadau cyfnod allweddol 2.

## 11. Y Broses Ymgynghori

Mae'r ddogfen hon yn nodi dechrau'r broses ymgynghori.

Bydd y cyfnod ymgynghori'n para tan **25 Tachwedd 2024.** O ganlyniad i'r ymgynghoriad mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn penderfynu peidio bwrw ymlaen ymhellach â'r cynnig neu i fwrw ymlaen â'r cynnig neu fersiwn a addaswyd ohono.

Caiff copi o'r cynnig hwn ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi gwybod i'r cyrff llywodraethu presennol am eu penderfyniad ac yn cyhoeddi'r canlyniad ar eu gwefan, gan roi gwybod i staff, rhieni/gwarcheidwaid ac undebau'n uniongyrchol.

Sut i gyflwyno sylwadau neu ofyn cwestiynau am y cynnig?

- Gallwch lenwi'r holiadur sydd ynghlwm a'i anfon at Dr Lowri Brown, Pennaeth Addysg, Gwasanaethau Addysg, Coed Pella, Bae Colwyn, LL29 7AZ.
- Gallwch ysgrifennu at Dr Lowri Brown, Pennaeth Gwasanaethau Addysg, Coed Pella, Bae Colwyn, LL29 7AZ.
- Neu, gallwch anfon e-bost at: moderneiddio.ysgolion@conwy.gov.uk

Bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio barn y budd-ddeiliaid canlynol ar gyfer y ddwy ysgol:

- Staff, disgyblion a rhieni/gofalwyr
- Staff addysgu a chefnogi
- Cyrff Llywodraethu
- Ysgolion a Chynghorau Cymuned

Rhennir y ddogfen ymgynghori â'r budd-ddeiliad canlynol:

- Holl staff ysgol
- Cyrff Llywodraethu ac ymddiriedolwyr
- Rhieni a Gofalwyr
- Undebau Llafur
- Awdurdodau esgobaethol neu gyrff crefyddol eraill
- Unigolion/sefydliadau eraill
- Cynghorau Cymuned

- Grŵp y Blynyddoedd Cynnar
- Cynghorau Ysgol
- Unrhyw ALl perthnasol

## 12. **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**.

Mae asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gael ar gais ac fe fydd yn cael ei ystyried drwy gydol gweithrediad y cynnig hwn. Mae'r wybodaeth am yr ysgolion yn dangos bod y boblogaeth yn amrywiol ac nid oes unrhyw awgrym y byddai unrhyw ddysgwr yn wynebu anfantais pe bai'r cynnig yn dod i rym; gan gofio bod y ddwy ysgol yn aros ar yr un safle ac mai ychydig iawn o newid fydd dysgwyr yn ei brofi yn eu patrwm ysgol dyddiol.

**Cynnig i sefydlu ffederasiwn rhwng Ysgol Llanddoged ac Ysgol Ysbyty Ifan**

**Ysgol Llanddoged and Ysgol Ysbyty Ifan**

**DYCHWELER ERBYN 25 Tachwedd 2024 fan bellaf os gwelwch yn dda**

I: Dr Lowri Brown, Pennaeth Gwasanaethau Addysg, Coed Pella, Bae Colwyn, LL29 7AZ.

Ar-lein: www.conwy.gov.uk/YmgynghoriadYsbytyLlanddoged

Gallwch hefyd anfon eich barn dros e-bost at: moderneiddio.ysgolion@conwy.gov.uk

1. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i sefydlu ffederasiwn rhwng Ysgol Llanddoged ac Ysgol Ysbyty Ifan?

**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

2. **A fyddech cystal â chadarnhau pa un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi os gwelwch yn dda:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhiant/gofalwr i ddisgybl yn Ysgol Llanddoged | ☐ | Rhiant/gofalwr i ddisgybl yn Ysgol Ysbyty Ifan | ☐ |
| Disgybl yn Ysgol Llanddoged | ☐ | Disgybl yn Ysgol Ysbyty Ifan | ☐ |
| Aelod o staff yn Ysgol Llanddoged | ☐ | Aelod o staff yn Ysgol Ysbyty Ifan | ☐ |
| Llywodraethwr yn Ysgol Llanddoged | ☐ | Llywodraethwr yn Ysgol Ysbyty Ifan | ☐ |
| Aelod o Gymuned Llanddoged | ☐ | Aelod o Gymuned Ysbyty Ifan | ☐ |

Parti arall â diddordeb

3. Rhowch wybod i ni am unrhyw sylwadau neu farn ychwanegol ynghylch y cynnig os gwelwch yn dda.

4. A hoffech chi dderbyn dolen gyswllt drwy e-bost pan gyhoeddir Adroddiad yr Ymgynghoriad ar wefan Gwasanaethau Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy?

Hoffwn ☐ Na hoffwn ☐

Os ydych chi wedi nodi 'Hoffwn' fel ateb i'r cwestiwn uchod, nodwch eich cyfeiriad e-bost:

**Diogelu Data** Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw'r Rheolydd Data at ddibenion Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016/Deddf Diogelu Data 2018. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rheoli'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu mewn modd sy'n cydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016/Deddf Diogelu Data 2018. Ni ddefnyddir y wybodaeth rydych chi'n ei darparu ond i rannu gwybodaeth â chi am yr uchod. I weld yr hysbysiad preifatrwydd llawn a mwy, ewch i

https://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Access-to-Information/Privacy-Notices/How-Conwy-County-Borough-Council-uses-your-Information.aspx